



SENEDD!

Adroddiad y Swyddogion Bayanda Vundamina

Senedd

02/12/2024



SENEDD!

Crynodeb

Yn ddiweddar, mae prif ffocws Undeb Aberystwyth wedi bod ar Adolygiad Swyddi'r Swyddogion, fel undeb rydym yn ceisio lleihau nifer ein swyddogion llawn amser cyflogedig i lai na 5.

Mae llawer o resymau dros y penderfyniad hwn megis Polisi'r Undeb, Awgrymiadau gan UCM, a manteision ariannol.

Dros y tair wythnos ddiwethaf rydym wedi cynnal 13 ymgynghoriad gyda grwpiau o 50 o fyfyrwr a 34 o aelodau staff i gael eu barn ar ba swyddi yr hoffent eu gweld ac amlygu bylchau posibl yn y strwythur sydd ohoni.

Rydym bellach wedi cyrraedd lle bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu ar ba swyddi aiff i bleidlais yr holl fyfyrwr a daw'r swyddi newydd hon i rym yn y flwyddyn academiaidd 2026/27.

Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yn yr Undeb, er enghraifft:

- Sialens Aber, a welodd dimoedd o fyfyrwr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cyfres o gemau parti i ennill yr anrhydedd o gael eu coronni yn bencampwyr Sialens Aber yn ogystal â'r cyfle i fyfyrwr/wraig Iwcus fynd â thocyn SuperTeams am ddim - gwobr mae llawer yn awchio amdani.
- Rydym wedi cynnal ein wythnos o ymwybyddiaeth a chyngor ar Iechyd Rhywiol a chefnogi ein myfyrwr i herio stigma a negatifrwydd ynghlwm â rhyw a chodi ymwybyddiaeth o wybodaeth a gwasanaethau iechyd rhywiol.
-
- Ethol a Hyfforddi Cynrychiolwyr Academiaidd.
- Cynhadledd y Cynrychiolwyr Academiaidd

Staff Newydd

Mae'n bleser gennym gyhoeddi penodi Arwa, ein Cydlynnydd Cynrychiolwyr Academiaidd, a dyma edrych ymlaen at gydweithio gyda hi.

Yn ogystal â hyn mae gennym nifer o fyfyrwr o'r cynllun llwybrau proffesiynol sy'n gweithio mewn gwahanol adrannau yn yr Undeb.

Bayanda - Llywydd

Dros y mis diwethaf, rwyf wedi bod yn cymryd rhan weithredol ym mhroses adolygu swyddi'r swyddogion, gan wyllo'r ymgynghoriadau yn agos a darparu mewnbyn gwerthfawr i sicrhau bod y broses yn drylwyr ac yn gynhwysol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hanfodol wrth asesu pa mor effeithlon ydy'r strwythurau presennol a thrafod ffyrdd o gefnogi anghenion swyddogion a chymuned ehangach y myfyrwr yn well.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi cynrychioli'r undeb yn ddiwyd drwy fynd i'r afael â materion a godwyd gan fyfyrwr mewn gwahanol bwyllgorau prifysgol. Drwy'r ymrwymadau hyn, rwyf wedi eirioli dros bryderon myfyrwr, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hystyried mewn prosesau gwneud penderfyniadau sefydliadol. Mae hyn wedi atgyfnerthu ymrwymiad yr undeb i wella profiad myfyrwr a meithrin cydweithio ystyrllon â rhanddeiliaid y brifysgol.



Sefydlaidd Fwrdd Cyngori Myfyrwyr Rhyngwladol sy'n cynnwys 15 o fyfyrwyr rhyngwladol o gefndiroedd amrywiol. Mae'r bwrdd hwn yn fodd hanfodol o roi cip uniongyrchol i'r Undeb a'r Brifysgol ar brofiadau byw myfyrwyr rhyngwladol. Nod y fenter yw sicrhau bod lleisiau'r myfyrwyr hyn yn cael eu clywed, bod eu heriau'n cael eu deall, a bod eu hanghenion yn cael y sylw sydd angen. Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethom ganolbwyntio ar themâu allweddol sy'n effeithio'n sylweddol ar eu taith yn y brifysgol:

- **Cyflwyniad:** Trafod pa mor effeithlon ydy cynlluniau cyflwyno wrth helpu myfyrwyr rhyngwladol i bontio'n esmwyth i'w hamgylcheddau academiaidd a chymdeithasol newydd.
- **Llety:** Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag argaeledd tai, fforddiadwyedd, ansawdd, ac addasu'n ddiwylliannol.
- **Cael Gafael ar Wasanaethau:** Amlygu rhwystrau rhag adnoddau hanfodol, megis gofal iechyd, cymorth iechyd meddwl, cymorth academiaidd, a gwasanaethau gyrfa.
- **Darganfod Cymunedau:** Trafod ffyrdd o feithrin ymdeimlad o berthyn trwy gymdeithasau diwylliannol, rhwydweithiau cyfoedion, a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol.

Drwy'r fenter hon, ein nod yw nodi meysydd i'w gwella, eirioli dros newid ystyrion, a magu amgylchedd mwy cynhwysol a chefnogol i bob myfyriwr/wraig rhyngwladol.

Elain - Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru

Mae Elain wedi cymryd rhan weithredol yn ymgynghoriadau adolygu swyddi Swyddogion Undeb Aberystwyth dros y mis diwethaf. Yn ystod yr ymgynghoriadau hyn, codwyd pryderon amrywiol, yn enwedig o ran dyfodol UMCA.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, gweithiodd Elain yn agos gyda'r Undeb ac UMCA i helpu i sicrhau dyfodol y swydd. Wnaeth ymgyrch UMCA ennyn cefnogaeth gref gan filoedd o bobl, gan gynnwys rhai o enwogion mwyaf y gymuned Gymraeg, a fu'n rhan hollbwysig wrth sicrhau llwyddiant parhaus yr Undeb.

Y penwythnos diwethaf, cynhaliwyd Y Ddawns Ryng-gol, digwyddiad blynyddol a gynhaliwyd gan UMCA, yn Aberystwyth. Croesawodd y digwyddiad dros 700 o fyfyrwyr o Gymru ar gyfer y penwythnos Rhyng-gol, a oedd yn cynnwys noson hwyliog o karaoke yn y Llew Du a chyngerdd nos Sadwrn yn cynnwys rhai o'r bandiau Cymraeg mwyaf poblogaidd, gan roi adloniant i'r mynychwyr.

Mae Elain hefyd wedi bod yn cynllunio a chasglu nawdd ar gyfer yr Eisteddfod Rhyng-gol, digwyddiad mawr arall yng nghalendr Undebau a chymdeithasau Cymraeg.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae Elain yn paratoi ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, a drefnir ar gyfer Rhagfyr 7fed. Yn ogystal, mae hi wrthi'n cynllunio Cyngerdd Nadolig Aelwyd Pantycelyn, ac wythnos 'Hwyl yr Ŵyl' UMCA, gyda'r ddau yn ddigwyddiadau pwysig yng nghalendr y gymuned Gymraeg.

Tiff - Swyddog Cyfleoedd

Mae Tiff wedi cael mis hynod gynhyrchiol, gyda chyfres o ddigwyddiadau a mentrau llwyddiannus, ochr yn ochr â phrosiectau pwysig sydd ar y gweill. Un o'r prif uchafbwyntiau oedd ei rhan yng Ngŵyl y Celfyddydau, lle cafodd gefnogaeth cynorthwy-ydd, Kyle, a sicrhodd fod y digwyddiad yn well fyth.



SENEDD!

Mae holl ddigwyddiadau Gŵyl y Celfyddydau bellach wedi'u cwblhau ac maent yn barod i'w hyrwyddo ar y wefan.

Mae Tiff hefyd yn paratoi at dasg sefydliadol fawr, gan gynllunio clirio ac ad-drefnu storfa'r Gawell a'r Cytiau Mwnci, yn ogystal â chreu Wal Clwb/Cymdeithas y tu allan i'r Swyddfa Cyfleoedd. O ran cynllunio digwyddiadau, mae Tiff wedi bod yn canolbwyntio ar y Parti Ar Ôl Superteams ac yn trafod cytundeb noddi Varsity gyda Fireball, oherwydd y slogan cyffredin, "Unleash the Dragon." Roedd Sialens Aber, digwyddiad hollbwysig i Tiff, yn llwyddiant ysgubol eleni. Er gwaethaf her swydd gydlynedd cymdeithasau gwag, camodd Tiff i'r adwy i gymryd llawer o'r gwaith, ac aeth y digwyddiad yn rhwydd. Bydd y cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol a wnaed hefyd yn hyrwyddo'r digwyddiad at y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau arbennig i'r Femininomenons am eu buddugoliaeth a Huw o AberSnow am ennill y tocyn Superteams am ddim.

Gyda Sialens Aber bellach y tu ôl iddi, mae Tiff yn canolbwyntio ar ei blaenoriaeth o wella'r cyfleusterau chwaraeon, a gallwn ddisgwyl clywed y diweddaraf ar hynny yn fuan. O ran cyfathrebu, mae'r fenter "Tiff yn Trïo" yn ôl, ac mae lansiad "Trïwch gyda Tiff" eisoes wedi ennyn diddordeb gan wahanol grwpiau. Mae hi'n annog unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu drwy e-bost Cyfleoedd UM.

Mae Tiff hefyd wedi dangos arweiniad cryf wrth gefnogi Diwrnod y Rhuban Gwyn, gan greu fideo i arddangos cefnogaeth yr Undeb i'r achos pwysig hwn. Mae ei gwaith ar fentrau cyflogadwyedd hefyd yn werth nodi, gan ei bod yn cydweithio â phrif ffigurau o'r Brifysgol, gan gynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, pennaeth y gwasanaeth gyrfaoedd, a'r cydlynedd Gwirfoddoli.

Roedd Tiff hefyd yn cydnabod Ffrisbi Eithafol a System Sain Aber (SSA) fel Clybiau a Chymdeithasau'r Mis ar gyfer mis Medi a Hydref.

Mae ei gwaith ar bolisiau yn dod yn ei flaen yn dda, gan gwblhau tri allan o bum polisi, gan gynnwys polisiau Cryfder a Chyflyru ac Elusen Codi a Rhoddi. Mae ei gwaith ar gynaliadwyedd yn mynd rhagddo gyda phrosiect loteri bin gyda'r nod o annog ailgylchu a'i integreiddio â Helfa Drysor Sialens Aber.

Roedd cynrychioli digwyddiadau Chwaraeon Myfyrwyr (WSS) a BUCS y Brifysgol yng Nghymru yn brif gyfrifoldeb arall gan Tiff. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n edrych ymlaen at gynllunio ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr Myfyrwyr, sydd eisoes ar waith, yn ogystal â'i chyfranogiad mewn amrywiol gyfarfodydd datblygu sy'n gysylltiedig â phrosiectau gwirfoddol.

Mae Tiff hefyd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i'r Diwrnodau Agored, gan gynrychioli'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn ystod y Sgwrs Bywyd Myfyrwyr, gyda chefnogaeth myfyrwyr gwirfoddol ar y panel. Mae cynllunio ar gyfer Aber 7s eisoes wedi dechrau, ac mae'n arbennig o falch o'i chysylltiad ag Anthony Nolan, elusen sy'n canolbwyntio ar y gofrestr bôn-gelloedd. Cynhaliodd un o'n myfyrwyr y



SENEDD!

standin, a ddenodd fwy nag ugain o fyfyrwyr i gofrestru o fewn 40 munud. Mae hi'n hapus iawn i rannu ei bod hi wedi helpu i wneud iddo ddigwydd.

I grynhoi, mae ymdrechion a chyfraniadau parhaus Tiff wedi bod yn ganolog i lwyddiant nifer o ddigwyddiadau, mentrau a phrosiectau o fewn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae ei hymrwymiad i ymgysylltu â myfyrwyr, cynaliadwyedd a chyflogadwyedd yn amlwg, ac mae'n parhau i sbarduno newid cadarnhaol ar draws gwahanol feysydd.

Will - Materion Academaidd

Ers y Senedd ddiwethaf, rwyf wedi cynnal fy Fforwm Academaidd cyntaf, a welodd nifer fawr yn dod. Buom yn trafod polisiau ar Ddeallusrwydd Artiffisial, y llyfrgell, niwroamrywiaeth ac amgylchiadau arbennig. Roedd cwrrd a chyfarch y Cynrychiolydd Academaidd hefyd yn llwyddiant, gyda chynrychiolwyr o wahanol adrannau yn bresennol. Rwyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau pellach ynglŷn â'r llyfrgell; gwnaed penderfyniad, ond rwy'n ansicr ynghylch i ba raddau y gallaf rannu'r manylion.

At hynny, wnes i gyflwyno y "Cwis Rhywiol" ar y cyd gyda Mo, Tiff, Alex, Tristan, a Marty. Mewn cyfarfod arall o Senedd y Brifysgol, aethom i'r afael â phynciau yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr a'r cynllun addysgol, ymhlith eraill. Mynychais weithdy ymddiriedolwyr dan arweiniad WONKHE a Nick Smith i wella fy nealltwriaeth o fy swydd fel ymddiriedolwr UndebAber.

Wrth ysgrifennu, rwyf wrthi'n cynllunio sesiwn astudio grŵp wythnosol, y byddaf yn ei hwyluso, gan weithredu allan o adeilad Undeb y Myfyrwyr. Rhaid diolch i Noel Czempik am y fenter hon, gan mai ei syniad hi ydyw.

Yn olaf, llwyddais i gynllunio, trefnu a chynnal Cynhadledd y Cynrychiolwyr Academaidd a oedd yn ennyn presenoldeb sylweddol ac yn ymdrin â phynciau amrywiol, gan gynnwys niwroamrywiaeth, llythrennedd Deallusrwydd Artiffisial, cyflogadwyedd a gwirfoddoli.

Mo - Swyddog Llesiant

Y Brifysgol:

Mae Mo wedi mynychu amryw o gyfarfodydd y Brifysgol, gan gynnwys grwpiau cynllunio gweithredu TrACE, paneli addasrwydd i ymarfer, Swyddogion a 'dal i fyny' gyda'r Is-Ganghellor a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Mae hi'n dal i gael sgysiau gyda'r gwasanaethau myfyrwyr i ddarganfod y ffyrdd gorau posibl y gallant gydweithio. Maent hefyd yn dysgu am y sefyllfa bresennol yn y gwasanaethau myfyrwyr a sut mae hynny wedi newid, gyda'r gobaith o gael golwg sylweddol ar fecaneg ac amgylchiadau yr adran oherwydd y newidiadau ariannol i gyllideb ac adnoddau. Aeth Mo hefyd i sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd gan Dyfed-Powys (Hyfforddiant Twyll a Throseddau Digidol).

Yr Undeb:

Mae Mo wedi mynychu cyfarfodydd yn yr Undeb, gan gynnwys cyfarfodydd paratoi digwyddiadau, adolygiadau swyddi'r Swyddogion, hyfforddiant y Senedd, cyfarfodydd tîm gyda'r adran les, cynllunio'r Wythnos SHAG, sesiwn mentora Ymddiriedolwyr, hyfforddiant fforwm, a chynllunio Diwrnod Cofio Pobl Draws. Cynhaliodd ei fforwm lles a rhyddid cyntaf, caed sgysiau cadarnhaol, a rhoddwyd at ei gilydd rhestr weithredu glir o bethau i weithio arnynt/gwneud. Gweithiodd Mo gyda'r Swyddogion Myfyrwyr Traws ac O Rywedd Anghydfurfiol a LHDTTC+ i helpu cynnal sesiwn 'ymlacio a sgwrsio' ar



SENEDD!

gyfer Diwrnod Cofio Pobl Draws. Mae Mo wedi bod yn cynllunio digwyddiadau ar gyfer Yn Aber am y Gaeaf a Lleddfu Straen Arholiadau Ionawr. Mo oedd y swyddog arweiniol ar gyfer y drydedd wythnos SHAG Blynyddol, fe wnaethant helpu ei hwyluso a chynnal digwyddiadau, a hyrwyddo ffilmiau. Fe wnaethon nhw gynnal cwis yr Wythnos SHAG gyda chymorth Tiff. Roedd y noson yn llwyddiannus iawn ac roedd y disgyblion yn eu gweld yn mwynhau'r noson. Mae Mo hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith ar gyfer Mis Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl Dynion, cawsant daith gerdded, a gafodd ei ohirio yn wreiddiol a bore coffi. Ar gyfer y bore coffi, wnaethon nhw wahodd dau siaradwr gwadd, gan gynnwys gwesteiywr podlediad 'Over the Falls' a chynrychiolwyr o 'Men2men' a grŵp lleol i Geredigion. Maent yn cynnal digwyddiadau o amgylch y gwyliau a'r gweithgareddau, fel 12 Diwrnod o Les, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio ar eu polisi ar "Wella hyrwyddo a chynyddu ymgysylltiad myfyrwyr mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â lles."